## Pwyntiau allweddol

### Galw a gweithgareddau

#### Gofal heb ei drefnu (Mawrth 19)

- Ym mis Mawrth 2019, cafodd y gwasanaeth ambiwlans 39,106 o alwadau brys, cyfartaledd o 1,261 y diwrnod, i lawr o 1,284 ym mis Chwefror 2019. Cynyddodd cyfran y galwadau coch 0.2 pwynt canran i 5.3 y cant.

- Mae nifer y galwadau brys a gafodd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi bod yn codi'n raddol yn y tymor hir. Ers cychwyn casglu data misol ym mis Ebrill 2006, mae'r galwadau dyddiol ar gyfartaledd wedi codi o lai na 1,000 y diwrnod i rhwng 1,200 a 1,450 y diwrnod. Roedd nifer y galwadau coch dyddiol ar gyfartaledd ym mis Mawrth 2019 yn 67, un yn fwy na mis Chwefror 2019.

- Mae derbyniadau i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn uwch yn ystod misoedd yr haf na'r gaeaf fel arfer. Cafwyd 2,880 o dderbyniadau i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ar gyfartaledd bob dydd ym mis Mawrth. Mae hyn 1.9 y cant yn uwch nag ym mis Chwefror 2019 (54 yn fwy o bobl bob diwrnod ar gyfartaledd) a 6.9 y cant yn uwch nag ym mis Mawrth 2018 (185 yn fwy o bobl bob diwrnod ar gyfartaledd). Mae cyfartaledd nifer y derbyniadau i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys bob diwrnod y mis hwn yn uwch nag unrhyw gofnodion sydd gennym ar gyfer mis Mawrth ers i ni ddechrau casglu data (a ddechreuodd ym mis Mehefin 2006).

- Roedd cyfanswm nifer y derbyniadau i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn ystod y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2019 wedi cynyddu 1.9 y cant ers y flwyddyn flaenorol, ac yn ôl y duedd yn y tymor canolig, mae wedi cynyddu 7.6 y cant o'i gymharu â'r un cyfnod 12 mis 5 mlynedd yn ôl (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2014).

- Ym mis Mawrth 2019, cafodd 17,402 o gleifion eu derbyn i'r un ysbyty neu i ysbyty gwahanol ar ôl mynd i adran Damweiniau ac Achosion Brys fawr. Mae hyn 1,592 yn fwy nag ym mis Chwefror 2019 a 744 yn fwy nag ym mis Mawrth 2018. Roedd cleifion 75 oed a throsodd yn cyfrif am 31.8 y cant o'r derbyniadau (5,533).

#### Gofal wedi'i drefnu (Chwefror 2019)

- Atgyfeiriwyd cyfartaledd o 3,864 o gleifion allanol y diwrnod ym mis Chwefror 2019. Mae hyn yn 2.6 y cant o gynnydd o'i gymharu â mis Ionawr 2019 ac yn gynnydd o 3.6 y cant o'i gymharu â mis Chwefror 2018.

- Nid yw Cwm Taf wedi llwyddo i ddarparu data ar gyfer llwybrau sydd wedi cau ers mis Awst 2018, felly nid yw'r rhifau a'r cymariaethau canlynol ar gyfer llwybrau wedi cau yn cynnwys Cwm Taf. Nifer y llwybrau cleifion sydd wedi'u cau fesul diwrnod gwaith ym mis Chwefror 2019 oedd 4,129, gostyngiad o 2.3 y cant ers mis Ionawr 2019. Mae nifer y llwybrau sydd wedi cau fesul diwrnod gwaith yn amrywio drwy gydol y flwyddyn, gyda'r niferoedd yn

